No.

# PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 17 Ionawr, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J. Protheroe (Cadeirydd); Cynghorydd E. Goodjohn (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G.D.D. Carroll, P. Drake, C.P. Franks, S.J. Haines, H.C. Hamilton, S.M. Hanks, Dr. I.J. Johnson, B. Loveluck-Edwards a N.J. Wood.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr R.M. Birch (Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a’r Gymraeg), L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Berfformiad ac Adnoddau), G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) and E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

703 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

704 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr, 2023 fel cofnod cywir.

705 DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd G.D.D. Carroll fuddiant yn Eitem Agenda Rhif 4 - Pecyn Cymorth a Chanllawiau Cynhwysiant Trawsryweddol Drafft ar gyfer Ysgolion a Lleoliadau Eraill. Natur y buddiant oedd rôl y Cynghorydd fel llywodraethwr awdurdod lleol yn Ysgol Gynradd Llandochau. Roedd hwn yn fuddiant personol ac nid yn rhagfarnus.

Datganodd y Cynghorydd P. Drake fuddiant yn Eitem Agenda Rhif 4 - Pecyn Cymorth a Chanllawiau Cynhwysiant Trawsryweddol Drafft ar gyfer Ysgolion a Lleoliadau Eraill. Natur y buddiant oedd rôl y Cynghorydd fel llywodraethwr yn Ysgolion Cynradd Gladstone a Holton. Roedd hwn yn fuddiant personol ac nid yn rhagfarnus.

Datganodd y Cynghorydd P. Drake fuddiant yn Eitem Agenda Rhif 5 – Adroddiad Diweddaru Prosiect Sero. Roedd natur y buddiant oherwydd y cyfeiriad yn yr

adroddiad at ôl-osod a gwella canolfannau cymunedol ym Mro Morgannwg a rôl y Cynghorydd ar Fwrdd Ymddiriedolwyr Canolfan Gymunedol Castleland.

Datganodd y Cynghorydd C.P. Franks fuddiant yn Eitem Agenda Rhif 5 – Adroddiad Diweddaru Prosiect Sero. Roedd natur y buddiant oherwydd y cyfeiriad yn yr adroddiad at ôl-osod a gwella canolfannau cymunedol ym Mro Morgannwg a’i gysylltiad agos â Chanolfan Gymunedol Murchfield.

Datganodd y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson fuddiant yn Eitem Agenda Rhif 5 – Adroddiad Diweddaru Prosiect Sero. Roedd natur y buddiant oherwydd y cyfeiriad yn yr adroddiad at ôl-osod a gwella canolfannau cymunedol ym Mro Morgannwg a'i rôl gysylltiedig fel ymddiriedolwr Bro Morgannwg yng Nghanolfan Gymunedol Margaret Alexander. Rhoi gan y Cynghorydd ganiatâd i siarad a phleidleisio ar faterion sy'n ymwneud â chanolfannau cymunedol pan gânt eu trafod yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Tref y Barri.

Datganodd y Cynghorydd B. Loveluck-Edwards fuddiant yn Eitem Agenda Rhif 4 - Pecyn Cymorth a Chanllawiau Cynhwysiant Trawsryweddol Drafft ar gyfer Ysgolion a Lleoliadau Eraill. Natur y buddiant oedd rôl y Cynghorydd fel llywodraethwr awdurdod lleol yn Ysgol Gynradd Colcot. Roedd hwn yn fuddiant personol ac nid yn rhagfarnus.

Datganodd y Cynghorydd B. Loveluck-Edwards fuddiant yn Eitem Agenda Rhif 5 – Adroddiad Diweddaru Prosiect Sero. Roedd natur y buddiant oherwydd y cyfeiriad yn yr adroddiad at ôl-osod a gwella canolfannau cymunedol ym Mro Morgannwg a’i haelodaeth o’r Pwyllgor ar gyfer Canolfan Gymunedol Highlight Park mewn rôl nad oedd yn Ymddiriedolwr.

706 PECYN CYMORTH CYNHWYSIANT TRAWSRYWIOL DRAFFT A DOGFEN GANLLAW AR GYFER YSGOLION A LLEOLIADAU ERAILL (CYF) –

Cyflwynodd y Swyddog Diogelu, gyda chefnogaeth yr Ymgynghorydd Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Lles y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant a gynhaliwyd ar 11 Ionawr 2024. Diben yr adroddiad atodol oedd rhoi gwybod am ganfyddiadau'r ymgynghoriad ar Ganllaw a Phecyn Cymorth Cynhwysiant Trawsryweddol ar gyfer Ysgolion a Lleoliadau Eraill diwygiedig Cyngor Bro Morgannwg ("y Pecyn Cymorth") ac i'r Pwyllgor gyfeirio eu sylwadau a'u hargymhellion yn ôl i'r Cabinet i'w hystyried a'u penderfynu. Y pwyntiau allweddol y cyfeiriwyd atynt oedd:

- Cafwyd 591 o ymatebion i’r arolwg ar-lein. Roedd ychydig dros 50% o'r ymatebion gan rieni. Cafwyd tua 100 o ymatebion i'r arolwg gan ddisgyblion a staff ysgol, sy'n cynrychioli 18% o'r ymatebwyr, yn ogystal ag ymgysylltu wyneb yn wyneb â'r grwpiau hyn.
- Cafwyd cefnogaeth sylweddol i'r Pecyn Cymorth gan y mwyafrif o staff ysgol a disgyblion a oedd o'r farn bod y canllaw’n hanfodol er mwyn creu amgylcheddau cynhwysol a diogel i bobl ifanc, er bod athrawon yn mynegi pryderon ynghylch gorfod mynd i'r afael â'r materion meddygol sy'n ymwneud â thrawsnewid rhywedd. Eglurodd y swyddogion fod y Pecyn

Cymorth wedi cael ei ddiwygio o ganlyniad i'r pryderon hyn a bod materion meddygol i'w cyfeirio at weithwyr iechyd proffesiynol. Hefyd, oherwydd hyd a manylder y Pecyn Cymorth, yr awgrym a roddwyd oedd creu dogfen hawdd ei deall neu ffeithlun i bobl ifanc i gyd-fynd â'r prif Becyn Cymorth. Cadarnhaodd y swyddogion y byddai'r dasg hon yn cael ei chyflawni ar ôl cytuno ar y ddogfen ac y byddai pobl ifanc yn rhan o'r gwaith o greu hyn.

- Roedd nifer o rieni yn gwrthwynebu'r pecyn cymorth yn sylfaenol ar y sail nad oeddent yn credu mai rôl ysgolion oedd addysgu plant a phobl ifanc am berthnasau a rhywioldeb gan y dylai hyn fod yn rôl i rieni. Roedd rhai rhieni hefyd yn pryderu na ddylid defnyddio'r Pecyn Cymorth wrth addysgu disgyblion oed cynradd gan eu bod yn cael eu hystyried yn rhy ifanc i ddod i gysylltiad â chynnwys o'r fath.
- Pwysleisiwyd nad adnodd addysgu oedd y Pecyn Cymorth, ond yn ddogfen ganllaw i staff sy'n gweithio mewn ysgolion i'w cynorthwyo i gefnogi disgyblion sy'n nodi eu bod yn draws neu â rhywedd amrywiol. Nid oedd yn adnodd i addysgu disgyblion o unrhyw oed am berthnasau a rhywioldeb.
- Pwysleisiodd y Pecyn Cymorth yr angen i ysgolion roi dull gweithredu "fesul achos" ar waith wrth wneud penderfyniadau yn y maes hwn, er mwyn sicrhau dull gweithredu diduedd, hyblyg a 'gwylio ac aros' oherwydd effaith bosibl 'trawsnewid cymdeithasol' ar y plentyn neu'r person ifanc perthnasol, yn ogystal â lliniaru'r risgiau o'r angen i herio'r broses gwneud penderfyniadau. Fel rhan o hyn, byddai rhieni hefyd yn cymryd rhan yn y broses hon. Eglurodd y swyddogion fod y rhain yn ddiwygiadau mawr a wnaed mewn ymatebion i'r adborth i'r ymgynghoriad.

Yn dilyn cyflwyno'r cyfeiriad a'r adroddiad atodol, cafwyd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol yng nghyfarfod y Pwyllgor:

- Gofynnodd y Cynghorydd Carroll pam nad oedd y sylwadau, a oedd yn rhan o'r broses ymgynghori, wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Eglurwyd oherwydd natur rhai o'r sylwadau a wnaed, ac yn dilyn cyngor cyfreithiol, na fyddai'n briodol rhannu'r rhain yn yr adroddiad nac yn gyhoeddus, oherwydd eu natur a allai fod yn sarhaus neu'n eithafol. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaethau yn y cyfarfod ynglŷn â sut i rannu'r rhain yn gyhoeddus, h.y. golygu'r rhannau perthnasol er mwyn dileu cynnwys anghyfreithlon neu sarhaus ac ati, ond penderfynwyd argymell rhannu'r wybodaeth hon gydag Aelodau'r Pwyllgor yn breifat ac yn ddiogel yn lle hynny. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor hefyd nad oedd mwyafrif llethol y sylwadau gan y rhieni yn sarhaus nac yn eithafol, ac nid oedd y mwyafrif yn erbyn y Pecyn Cymorth ac fe geisiodd fynd i'r afael â'u pryderon, gyda sylwadau'r rhieni wedi cael eu hystyried. Pwysleisiodd y Cynghorydd fod gan y mwyafrif o'r rhieni a'r etholwyr farn a phryderon dilys ac ni allai gymeradwyo'r Pecyn Cymorth yn ei ffurf bresennol.
- O ran ymholiad y Cynghorydd Hanks ar weithredu fersiwn Cymru gyfan o'r canllaw hwn, eglurwyd y gallai hyn fod yn ymgynghoriad yng Ngwanwyn 2024 ond nid oedd unrhyw arwydd o ddyddiad cyhoeddi terfynol ar gyfer y ddogfen. Eglurwyd ymhellach y byddai Canllaw Bro Morgannwg yn cael ei gyhoeddi ym mis Ionawr / Chwefror 2024 yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet. Ar ôl i Lywodraeth Cymru (LlC) gyhoeddi ei fersiwn o'r canllaw

cynhwysiant Trawsryweddol, byddai'r Cyngor yn ceisio mabwysiadu hwn fel y bo'n briodol.

- Cefnogodd y Cynghorydd Dr. Johnson y Pecyn Cymorth newydd fel dogfen ganllaw ac roedd yn teimlo ei fod wedi cynnwys y newidiadau a'r diwygiadau angenrheidiol h.y. ystyried fersiwn 'hawdd ei ddarllen' o'r Pecyn Cymorth a chydweithio â rhieni a phlant cysylltiedig, ond tynnodd sylw at absenoldeb y Panel Rhianta Corfforaethol fel rhanddeiliad yn y ddogfennaeth a phwysigrwydd atodi rhestr neu dabl yn amlinellu'r newidiadau rhwng y Pecyn Cymorth blaenorol a'r Pecyn Cymorth newydd (Atodiadau A a B yr adroddiad gwreiddiol) i'r fersiwn ddiweddaraf o'r Pecyn Cymorth i'w gwneud yn glir pa newidiadau a wnaethpwyd. Soniodd hefyd am y materion posibl a allai godi gyda'r Cyngor yn mabwysiadu canllaw LIC pan oedd newydd fabwysiadu ei ganllaw ei hun ar y pwnc hwn, a thynnodd sylw hefyd at y ffaith y cafwyd mwy o ymatebion gan rieni na chan bobl ifanc yn yr ymgynghoriad. Mewn ymateb i'r ymholiadau hyn, eglurwyd y byddai statws rhanddeiliaid y Panel Rhianta Corfforaethol yn cael ei ychwanegu at y Pecyn Cymorth. Fodd bynnag, nid oedd y swyddogion yn credu y byddai modd cynnwys rhestr gynhwysfawr o newidiadau fel y gofynnwyd amdani, oherwydd y nifer fawr o ddiwygiadau wedi'u gwneud yn ystod y 9 mis ers i'r ymgynghoriad gael ei gwblhau. Pwysleisiodd y swyddogion ymhellach fod y prif newidiadau wedi'u gwneud i'r Pecyn Cymorth wedi'u nodi yn adroddiad y Cabinet. O ran nifer yr ymatebwyr, er ei bod yn siomedig bod cyfran is o bobl ifanc wedi ymateb i'r ymgynghoriad, roedd hyn wedi'i wrthbwyso trwy ymgysylltu â'r Rhwydwaith Cynghorau Ysgol a grwpiau cydraddoldeb.
- Pwysleisiodd y Cynghorydd Loveluck-Edwards bwysigrwydd cael y canllaw hwn i gefnogi athrawon a disgyblion o ran trawsnewid gan ddarparu dull gweithredu a fframwaith cyson. Byddai'n ddogfen fyw a fyddai'n datblygu ymhellach dros amser ac roedd yn hanfodol cael hyn ar waith nawr.
- Awgrymodd y Cynghorydd Haines y dylid ymgynghori â phob grŵp crefyddol fel rhanddeiliaid mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol. Eglurwyd bod ymgysylltu wedi digwydd gyda'r esgobaeth Gatholig ac Ysgolion Eglwysig oherwydd mynychder yr ysgolion Catholig ac Eglwysig yn y Fro. Dywedodd y swyddogion hefyd fod grwpiau cydraddoldeb wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad drwy Fforwm Ymgynghorol Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg. Mynegodd y Cynghorydd bryderon hefyd ynghylch hygyrchedd y canllaw hwn i blant a phobl ifanc, a oedd yn awgrymu mai adnodd ydyw, nid canllaw yn unig. Pwysleisiwyd mai canllaw nid adnodd addysgu oedd hyn. Felly, roedd angen iddo fod yn agored ac yn hygyrch i athrawon a disgyblion. Byddai'r canllaw yn sicrhau y byddai pob asesiad risg o ran materion sy'n berthnasol i drawsnewid rhywedd h.y. cyfleusterau rhyw sengl, yn seiliedig ar yr amgylchiadau penodol ac nid ar ddull gweithredu cyffredinol.
- Cyfeiriodd yr Is-gadeirydd at y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) a oedd yn fath o ganllaw y gallai ysgolion droi ato yn ôl yr angen yn unig ac a oedd yn hygyrch i bob parti a lywiodd y broses o wneud penderfyniadau. Roedd disgyblion a rhwydweithiau cynghorau ysgol yn cefnogi'r Pecyn Cymorth ac yn gwerthfawrogi'r cyfyngiadau cyfreithiol yr oedd ysgolion yn gweithio oddi tanynt, gyda mwy o gymorth yn cael ei roi i ddisgyblion sy'n trawsnewid gan rwydweithiau a sefydlwyd gan ddisgyblion

mewn ysgolion.  Tynnodd sylw at y ffaith hefyd, er bod rhieni â barn wahanol ar y Pecyn Cymorth, eu bod yn cytuno'n bennaf ar yr angen am ddull  gweithredu i sicrhau diogelwch disgyblion ac y dylai ysgolion weithredu'n effeithiol yng ngoleuni heriau o'r fath.

Gwnaeth y Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried y cyfeiriad, yr adroddiad atodol a phob mater a phob goblygiad ynddynt,

ARGYMHELLWYD -

(1) Nodi cynnwys yr ymatebion i'r ymgynghoriad, y Pecyn Cymorth a Chanllawiau Cynhwysiant Trawsryweddol diwygiedig ar gyfer Ysgolion a Lleoliadau Eraill ("y Pecyn Cymorth"); yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, a'r cyfeiriad gan y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant.

(2) Bod y sylwadau canlynol yn cael eu cyfeirio at y Cabinet ynghyd â'r adroddiad, yr atodiadau a'r cyfeiriad gan y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant, er mwyn eu hystyried:

- Bod rhestr neu dabl sy'n amlinellu'r newidiadau rhwng y pecynnau cymorth blaenorol a newydd (atodiadau A a B yr adroddiad gwreiddiol) yn cael eu cynnwys gyda'r fersiwn ddiweddaraf.
- Rhoi ystyriaeth i Aelodau'r Pwyllgor gael mynediad cyfrinachol a diogel i'r sylwadau a wnaed fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Pecyn Cymorth a Chanllawiau Cynhwysiant Trawsryweddol ar gyfer Ysgolion a Lleoliadau Eraill gan ymgynghorwyr.
- Yr angen i roi mwy o bwyslais ar y pecyn cymorth fel canllaw yn hytrach nag adnodd addysgu neu ddisgybl.
- Rhoi ystyriaeth i gynnwys grwpiau crefyddol amrywiol mewn ymgynghoriadau ar y pecyn cymorth yn y dyfodol ac annog ymatebion pellach gan oedolion a phlant.

<u>Y rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Rhoi ystyriaeth i gynnwys y cyfeiriad a’r adroddiad, yn ogystal â’r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Er mwyn i'r Cabinet ystyried yr adroddiad, barn y Pwyllgor hwn, sylwadau'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant a nodi bod aelodau'r Panel Rhianta Corfforaethol wedi ystyried y mater hefyd.

707 ADRODDIAD DIWEDDARU PROJECT ZERO (PW) –

Cyflwynodd y Rheolwr Gweithredol - Mewnwelediad a Strategaeth Gorfforaethol a’r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol yr adroddiad, diben yr adroddiad oedd rhoi gwybod i’r Aelodau am gynnydd ar draws y Cyngor wrth ymateb i'r argyfwng hinsawdd a chyflawni'r ymrwymiadau fel rhan o Brosiect Sero.

Roedd yr adroddiad ac Atodiad A (wedi'i atodi i'r adroddiad) yn manylu ar ystod eang o weithgareddau a oedd yn cael eu cynnal i sicrhau bod y Cyngor yn parhau i gyflawni yn erbyn ymrwymiadau yn y Cynllun Her Newid Hinsawdd ac i fwrw ymlaen â Phrosiect Sero. Roedd y cynnydd a amlinellwyd yn yr adroddiad yn cyfeirio at y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Medi 2023.

Roedd y sgoriau COG (coch, oren, gwyrdd) ar gyfer cynnydd yn ystod y cyfnod hwn wedi'u cyflwyno yn Atodiad A yr adroddiad gan fanylu ar gynnydd yn erbyn yr 80 cam sylfaenol o fewn y Cynllun Her Newid Hinsawdd. Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion allyriadau carbon 2022-2023 Cyngor Bro Morgannwg. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ynglŷn â'r cyllid a oedd yn gysylltiedig â Phrosiect Sero a'r defnydd o gronfa wrth gefn Prosiect Sero yn ogystal â diweddariadau ar y dull o reoli rhaglenni.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, cafwyd y sylwadau a'r ymholiadau canlynol eu gwneud yn y cyfarfod:

- Roedd y Cynghorydd Franks yn falch o'r cynnydd o ran prosiect Adfer y Ddawan a'r gobaith oedd y gallai'r Pwyllgor gael gwybod am ei gynnydd parhaus. Cyfeiriodd y Cynghorydd at ei bryderon am fanylion yr adroddiad ynghylch y Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd (SLRhPLl) a'r effaith ar gymunedau yn y Fro fel yn Ninas Powys o ran llifogydd, gosod pŵer solar ar doeau canolfannau cymunedol, yr oedd rhai ohonynt mewn cyflwr gwael ac angen eu disodli, y pwyntiau gwefru a osodwyd ar y cyd â'r Cyngor fel rhan o sero-net, y cynllun e-feiciau yn ogystal â'i bryderon ynghylch peidio â chynnwys Cynghorau Tref a Chymuned o bosibl yn y broses hon. Cyfeiriodd hefyd at y sgoriau COG a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad a'i amheuaeth o ran y diffyg mynegeion coch fel rhan o'r dadansoddiad a'r sgoriau. Eglurwyd, o ran y SLRhPLl, y byddai gwybodaeth bellach yn cael ei chasglu a'i rhoi i'r Pwyllgor yn dilyn y cyfarfod. O ran adrodd yn y dyfodol, byddai gofyn i'r swyddogion perthnasol â gwybodaeth arbenigol yn y meysydd hyn ddod i'r cyfarfod nesaf lle byddai adroddiadau Prosiect Sero yn y dyfodol yn cael eu trafod. O ran cyflwr presennol toeau canolfannau cymunedol mewn cysylltiad â gosod paneli solar, eglurwyd y byddai'r Cyngor yn ystyried a oedd y toeau'n briodol o ran yr adeiledd ac o ran cyfeiriadedd, a phe bai angen, byddai gwaith ychwanegol yn cael ei wneud i sicrhau bod y toeau'n optimaidd pe bai digon o arian ar gael drwy'r swm cyfyngedig o arian cyfalaf a oedd ar gael ar gyfer hyn. O ran yr ymholiad ar bwyntiau gwefru cerbydau trydan, byddai mwy o wybodaeth yn cael ei cheisio a'i hanfon at Aelodau'r Pwyllgor a byddai'r sefyllfa ddiweddaraf ar y cynllun beiciau trydan yn cael ei cheisio, a oedd wedi cael ei dynnu'n ôl ledled Caerdydd yn ystod y cyfnod adrodd oherwydd materion a brofwyd yn y Ddinas. Pwysleisiwyd bod y Cynghorau Tref a Chymuned yn rhan gwbl annatod o Brosiect Sero a chafwyd cyfarfodydd cyswllt rheolaidd gyda'r holl Gynghorau Tref a Chymuned fel rhan o drefniadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC). O ran y statws COG, roedd yn bwysig cael adborth fel yr adborth a gynigiwyd gan y Cynghorydd gan y Pwyllgor hwn, a dyma'r tro cyntaf i'r sgoriau COG gael eu defnyddio yn yr adroddiad hwn gyda'r bwriad y byddai'n cynnig dangosydd ynghylch y cynnydd wedi'i wneud gyda'r prosiect yn erbyn yr

hyn a gyflawnwyd a'r hyn a nodwyd i'w gyflawni o fewn y cyfnod o chwe mis fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad. Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at golofn dde'r atodiad perthnasol a oedd yn nodi pa gamau y bwriadwyd eu cymryd dros y chwe mis nesaf a byddai'r rhain yn cael statws COG yn y diweddariad nesaf o'r adroddiad Prosiect Sero i'r Pwyllgor.

- Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr 80 cam o fewn y Cynllun Her Newid Hinsawdd, a oedd yn fentrau rhagorol ond nad oeddent yn cynnig unrhyw gydberthynas o ran lleihau carbon, yn enwedig yng ngoleuni'r 6 blynedd a oedd yn weddill cyn y byddai angen cyflawni nodau sero net. Roedd yn bwysig bod yr adroddiad yn adlewyrchu'r camau wedi'u cymryd fel rhan o Brosiect Sero i gyflawni lleihad mewn allyriadau carbon ac i gyfrannu at y lleihad hwnnw, ac i'r Pwyllgor gael ei ddiweddaru ar y camau hynny a oedd yn cael eu cymryd. Eglurwyd y byddai dau faes gwaith yn helpu i fynd i'r afael â'r maes hwn. Yn gyntaf, y Cynllun Rheoli Carbon a fyddai'n cael ei gyflwyno yn y dyfodol agos a'r gwaith a oedd yn cael ei wneud fel rhan o'r trefniadau cydweithredol gyda'r tri Chyngor arall fel rhan o'r trefniadau caffael, ar y cyd ag Ardal, o ran edrych ar y gadwyn gyflenwi a'r gweithgareddau hynny a oedd â ffactorau allyriadau arbennig o uchel. Trwy hyn, gallai'r Cyngor edrych ar newid arferion yn y meysydd hyn, gan fwydo yn y pen draw i'r Fframwaith Monitro Carbon.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Carroll at absenoldeb risgiau a rhwystrau datganedig o ran y cam gweithredu PZC10.1 'Mabwysiadu Strategaeth Rheoli Gwastraff newydd gyda phwyslais cryf ar weithio gyda'r gymuned', fel y nodwyd yn y Cynllun Her Newid Hinsawdd yn y colofnau perthnasol ar gyfer Chwarteri 1 a 2. Eglurwyd nad oedd y Cyfarwyddwr perthnasol wedi nodi unrhyw risgiau na rhwystrau i'r Strategaeth Rheoli Gwastraff ar gyfer Chwarteri 1 a 2, ond byddai mwy o wybodaeth yn cael ei cheisio ar gyfer y Cynghorydd a'r Pwyllgor yn dilyn y cyfarfod. Cododd y Cynghorydd hyn oherwydd pryderon parhaus am effaith y casgliadau gwastraff bob tair wythnos a'r effaith ar feysydd fel Iechyd yr Amgylchedd, yn enwedig mewn ardaloedd gwastraff cymunedol. Eglurwyd y byddai mwy o wybodaeth yn cael ei cheisio gan y swyddogion perthnasol a'i rhoi wrth adrodd yn y dyfodol. Gofynnodd y Cynghorydd hefyd am bwyslais y Cyngor ar weithio gyda'r gymuned a nododd y profiadau a gafodd drwy gyswllt gan drigolion ynghylch adrodd materion yn ymwneud â chasgliadau gwastraff drwy'r Ganolfan Gyswllt neu drwy'r Cynghorydd ac nad oedd yr Awdurdod Lleol wedi rhoi ymatebion mewn modd amserol. Eglurwyd bod adborth o'r fath yn cael ei gymryd o ddifrif ac y byddai sgwrs yn cael ei chynnal gyda chydweithwyr yn Nhîm Cysylltiadau Cwsmeriaid y Cyngor i ddeall beth oedd y sefyllfa ddiweddaraf o ran nifer yr ymholiadau a'r amseroedd ar gyfer ymdrin â nhw yn ogystal â mynd yn ôl at drigolion i wneud yn siŵr bod eu mater wedi cael sylw. Ychwanegodd y Cadeirydd y byddai recriwtio tri swyddog ailgylchu i weithio gyda chymunedau o ran ailgylchu yn golygu budd ychwanegol yn ogystal â'r archwiliadau misol ar wastraff halogedig.
- O ran ymholiad y Cynghorydd Hanks ar fflyd y Cyngor o gerbydau trydan, eglurwyd y byddai angen ymdrin â'r ymholiad hwn ym Mhwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio, ond byddai hyn yn cael ei wirio ddwywaith a byddai ymateb yn cael ei roi i'r Cynghorydd hefyd. O ran cymeradwyaeth y Cynghorydd o'r cwrs iDev ynghylch allyriadau carbon a'r newid yn yr hinsawdd diolchwyd i'r Cynghorydd am ei hadborth a byddai'r Cyngor yn

awyddus i drefnu sesiynau pellach ar gyfer Aelodau Etholedig ynghylch allyriadau carbon, ac ati.

- O ran pryderon y Cynghorydd Haines am effaith amgylcheddol y 1,000 o gartrefi ychwanegol arfaethedig i'w hadeiladu mewn ardal o'r Fro gyda thrafnidiaeth gyhoeddus wael h.y. y cynnydd posibl yn y defnydd o geir a'r ôl troed carbon, byddai mwy o wybodaeth yn cael ei cheisio gan y swyddogion perthnasol am effeithiau posibl ac ar y pwyntiau eraill a godwyd gan y Cynghorydd ynghylch y Rhaglen Datblygu Lleol Newydd (CDLIN).
- Cymeradwyodd yr Is-gadeirydd hyfforddiant Aelodau Etholedig a staff y Cyngor ynghylch Prosiect Sero, soniodd am y ffaith bod rheoli gwastraff yn gyfran fach yn unig o allyriadau carbon y Cyngor, ac am y manteision i genedlaethau'r dyfodol wrth adeiladu tai newydd, carbon isel neu niwtral, cost isel, o ansawdd da i helpu trigolion gyda'u hanghenion tai. Gofynnodd pa ymgynghori a chydweithio a oedd yn cael eu cynnal gyda Chynghorau Tref a Chymuned (CTCh) ynghylch y Cynllun Ynni Ardal Leol (CYAL). O ran y pwynt olaf, eglurwyd y bu cryn ymgynghori â sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r sector preifat wrth ddatblygu'r CYAL ac y byddai mwy o ddata ar yr ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda CTCh yn cael ei geisio. Byddai mwy o wybodaeth hefyd yn cael ei cheisio am ba ymgysylltu a fu gydag Adran Gynllunio'r Cyngor ynghylch y CDLIN a Phrosiect Sero / targedau carbon. Yn olaf, anogodd yr Is-gadeirydd y Pwyllgor i ysgrifennu at Bwyllgor y Senedd ar y Newid yn yr Hinsawdd a Seilwaith i fynegi pryderon am y newid yn y dyddiad targed o 2030 i 2034 i gartrefi’r sector cyhoeddus gyflawni sero net.
- Cododd y Cynghorydd Dr. Johnson nifer o sylwadau ac ymholiadau ynghylch pwysigrwydd sgôr COG Prosiect Sero, mwy o wybodaeth am y Bartneriaeth Natur Leol a chydweithio â hi, gan sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei gynnwys yn y cynnydd a oedd yn cael ei wneud dan Brosiect Zero yn ogystal ag effeithiau eraill, h.y. symud a disodli polion lampau Fictoraidd / treftadaeth, yr angen i gyflwyno diweddariadau ac adroddiadau ar Brosiect Zero mewn modd mor amserol â phosibl a'r gofyniad i fwy o fysiau ddefnyddio Cyfnewidfa’r Barri. Byddai'r pwyntiau a godwyd yn cael eu hystyried a byddai camau pellach yn cael eu cymryd, neu wybodaeth ei rhoi.

Wedi ystyried yr adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD -

(1) Nodi’r cynnydd fel y manylir yn yr adroddiad ac Atodiad A mewn perthynas â'r heriau yn y Cynllun Her Newid Hinsawdd.

(2) Nodi graddfa cynnydd CMG o fis Ebrill 2023 i fis Medi 2023 yn Atodiad A.

(3) Nodi allyriadau carbon 2022-2023 y Cyngor.

(4) Nodi'r cyllid sydd ar gael mewn cronfeydd wrth gefn a'r prosiectau sydd wedi derbyn cyllid hyd yn hyn.

(5) Bod y Pwyllgor yn cyfeirio'r adroddiad hwn ac unrhyw sylwadau i'r Cabinet i'w hystyried ochr yn ochr â sylwadau'r Pwyllgor Craffu Amgylchedd ac Adfywio a ystyriodd yr adroddiad hwn ar 16 Ionawr 2024. Mae'r Pwyllgor wedi cyfeirio'r sylwadau canlynol at y Cabinet i'w hystyried:

- Pwysigrwydd gwneud y raddfa CMG ar gyfer y cynnydd a wnaed dan Brosiect Sero mor effeithiol a chadarn â phosib.
- Sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei gynnwys yn y cynnydd a wnaed dan Brosiect Sero yn ogystal ag effeithiau eraill, h.y. tynnu polion lampau Fictoraidd.
- Pwysigrwydd darparu diweddariadau ac adrodd ar Brosiect Sero mewn modd mor amserol â phosib.
- Pwysigrwydd gweithio gyda phartneriaid, h.y. Cynghorau Tref a Chymuned, Partneriaethau Natur Leol, ac ati mewn perthynas â Phrosiect Sero.
- Edrych ar effaith amgylcheddol y Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

(6) Bod y Pwyllgor yn argymell i'r Cabinet fod yr adroddiad hwn yn cael ei ddosbarthu i'r holl Aelodau etholedig, aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r holl Gynghorau Tref a Chymuned er gwybodaeth iddynt.

(7) Bod adroddiadau yn y dyfodol ar Brosiect Sero yn rhoi sicrwydd a manylion ynghylch sut roedd y camau fel rhan o'r Prosiect Sero yn cyflawni ac yn cyfrannu at leihau allyriadau carbon.

(8) Bod y Pwyllgor yn ysgrifennu at Bwyllgor y Senedd ar Newid Hinsawdd a Seilwaith yn mynegi pryderon am y newid yn y dyddiad targed rhwng 2030 a 2034 i gartrefi'r sector cyhoeddus gyrraedd sero net a chael eu hôl-osod os oes angen i ddarparu ar gyfer hyn.

<u>Y rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1-4) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(5) Galluogi'r Cabinet i ystyried sylwadau'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau fel rhan o'i ystyriaeth o'r cynnydd o ran cyflawni'r Cynllun Her Newid Hinsawdd.

(6) Er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r holl Aelodau etholedig a rhanddeiliaid eraill am y trefniadau sydd ar waith i gyflawni Prosiect Sero.

(7) Sicrhau bod adroddiadau yn y dyfodol yn mynd i'r afael â sut y byddai Prosiect Sero yn cyflawni ac yn cyfrannu at leihau allyriadau carbon.

(8) Er mwyn mynegi pryderon y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau gyda Phwyllgor y Senedd ar Newid Hinsawdd a Seilwaith ar sicrhau sero net gyda thai'r sector cyhoeddus.

708 ADOLYGIAD O BOLISI A STRATEGAETH CAFFAEL BRO MORGANNWG (CAC) –

Cyflwynodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu yr adroddiad ar y cyd â'r Cadeirydd. Gofynnodd yr adroddiad i'r Pwyllgor Craffu gadarnhau aelodaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen arfaethedig yn ogystal â chymeradwyo'r cwmpas arfaethedig, y cyfarfodydd / sesiynau a oedd eu hangen a'r amserlen ar gyfer yr adolygiad.

Nododd y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol fel un o'i opsiynau, ar 24 Mai 2023, adolygu'r dogfennau, y prosesau, y Strategaeth a'r Polisi Craffu newydd o ran ymgorffori egwyddorion economi gylchol trwy gydol cylch oes caffael er mwyn sicrhau'r canlyniadau gwerth cymdeithasol a datgarboneiddio mwyaf posibl. Ystyriwyd sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen er mwyn cyflawni hyn. Cytunwyd wedyn yng nghyfarfod y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Craffu a gynhaliwyd ar 5 Medi 2023 y byddai'r adolygiad o'r Strategaeth a'r Polisi Caffael newydd yn cael ei ddewis fel y cyntaf i gael ei gynnal gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen perthnasol.

Byddai'r adroddiadau dilynol a gynhyrchwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cael eu cyfeirio'n ôl i'r Pwyllgor Craffu i'w hystyried ac unrhyw argymhellion neu sylwadau a gymeradwywyd eu cyfeirio i'r Cabinet.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, cadarnhaodd y Pwyllgor aelodaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen fel a ganlyn:

- Y Cynghorydd Goodjohn
- Y Cynghorydd Haines
- Y Cynghorydd Hanks
- Y Cynghorydd Hamilton
- Y Cynghorydd Dr. Johnson
- Y Cynghorydd Protheroe

Gwnaeth penodi'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ddilyn trafodaethau ynghylch cydbwysedd gwleidyddol, ac ati, er y pwysleisiwyd y byddai canfyddiadau'r Grŵp mewn unrhyw adroddiad dilynol yn mynd yn ôl yn gyntaf i Graffu er mwyn sicrhau bod holl Aelodau'r Pwyllgor yn hapus gydag unrhyw argymhellion neu ganfyddiadau a wnaed.

Cytunwyd hefyd y byddai cyfarfod cyntaf y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cael ei gynnal cyn gynted â phosibl gan ddefnyddio Microsoft Teams gyda chyfarfodydd dilynol yn cynnwys cymysgedd o gyfarfodydd ar-lein a rhai personol h.y. mewn amgylchiadau lle roedd angen i'r Grŵp fod 'ar y safle' a / neu gyfweld â phrynwyr a chomisiynwyr gwasanaethau amrywiol, ac ati.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD -

(1) Bod y Pwyllgor yn cadarnhau aelodaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen fel a ganlyn:

- Y Cynghorydd Goodjohn
- Y Cynghorydd Haines
- Y Cynghorydd Hanks
- Y Cynghorydd Hamilton
- Y Cynghorydd Dr. Johnson
- Y Cynghorydd Protheroe

(2) Bod cyfarfod cyntaf y Grŵp yn cael ei gynnal cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl ei sefydlu.

(3) Cymeradwyo'r cwmpas a'r amserlen arfaethedig ar gyfer yr adolygiad fel sydd wedi'i atodi yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

(4) Bod yr adroddiad yn cael ei gyfeirio i Bwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau i'w ystyried.

Y rhesymau dros yr argymhellion

(1-4)Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

709 TRACIO ARGYMHELLION CRAFFU O'R 3YDD CHWARTER 2023/24 AC ATODLEN DIWEDDARU RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR 2023/24 (CAC) -

Diben yr adroddiad oedd rhoi gwybod i'r Aelodau am y cynnydd yn sgil yr argymhellion Craffu a'u galluogi i ystyried y Flaenraglen Waith wedi'i diweddaru ynghyd ag unrhyw lithriad ar gyfer 2023/24.

Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybod i'r Aelodau am gynnydd argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Craffu yn y gorffennol a'r Flaenraglen Waith wedi'i diweddaru ar gyfer 2023/24.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, cafwyd yr ymholiadau a'r sylwadau canlynol gan y Pwyllgor:

- Yn dilyn ymholiad y Cynghorydd Dr. Johnson ar yr argymhelliad heb ei gwblhau o ran Atodiad A sesiynau a briffiau Gosod Targedau a Chynlluniau Gwasanaeth, cytunwyd i gwblhau'r rhan hon o'r traciwr argymhellion. Er bod yr argymhelliad yn barhaus o ran y ffaith y byddai'r sesiynau a'r briffiau Gosod Targedau a Chynlluniau Gwasanaeth yn parhau, er enghraifft, ar ddechrau 2024 er mwyn helpu i lywio'r dull gweithredu a galluogi'r Aelodau i graffu ar y gweithgaredd hwn yn effeithiol, penderfynwyd y dylid marcio hyn

yn awr fel pe bai wedi'i gwblhau.  Roedd y Pwyllgor bellach yn fodlon bod y pryderon cychwynnol wedi cael sylw.

- O ran ymholiadau'r Cynghorydd Hanks ynghylch statws argymhellion yn y Fframwaith Tracio Penderfyniadau a maint yr adroddiad cyffredinol (gan gynnwys yr elfennau Blaenraglen Waith a thracio penderfyniadau) eglurwyd bod nifer o argymhellion wedi'u cwblhau yn ddiweddar ac felly eu bod wedi'u cynnwys yn yr adroddiad er mwyn rhoi gwybod i'r Pwyllgor eu bod wedi'u cwblhau'n ddiweddar ac y byddent wedyn yn cael eu dileu mewn fersiynau o'r adroddiad yn y dyfodol.  O ran maint cyffredinol yr adroddiad, nododd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu ar y cyd â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd fod yr adroddiad yn cynnwys y Rhaglen Waith ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mai 2023 a mis Ebrill 2024 ac felly yn cynnwys holl hanes adrodd i'r Pwyllgor er gwybodaeth iddo fe ac er gwybodaeth i'r cyhoedd.  Hefyd, roedd swm y tracio penderfyniadau wedi cynyddu oherwydd nifer yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor yn y chwarteri diweddar a byddai'n lleihau'n araf wrth i'r rhain gael sylw.
- Roedd yr Is-gadeirydd yn gobeithio y byddai argymhellion a wnaed yn Chwarter 3 e.e. y rhai ynghylch Cynllun Cyflawni Blynyddol 2024/25 drafft Cyngor Bro Morgannwg yn cynnwys meysydd yn ymwneud â Thargedau Clyfar ac ati yn gweld symudiad a chynnydd sylweddol, i'w dwyn yn ôl i'r Pwyllgor ar gyfer diweddariad pellach.  Nododd hefyd fod y diweddariad(au) arfaethedig gan bartneriaid o'r BGC wedi cael eu symud i fis Ebrill fel rhan o'r Flaenraglen Waith a byddai'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn trafod y mater hwn gydag Aelodau'r Cabinet fel rhan o'u cyfarfod ar Flaenraglen Waith y Cabinet yn y dyfodol agos.

Gwnaeth y Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

ARGYMHELLWYD -

(1) Cytuno ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiad A i D yr adroddiad.

(2) Cymeradwyo'r Amserlen Blaenraglen Waith ddiwygiedig ar gyfer 2023/24 sydd ynghlwm yn Atodiad Dd i'r adroddiad a'i lanlwytho i wefan y Cyngor.

<u>Y rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Cynnal tracio effeithiol ar argymhellion y Pwyllgor.

(2) Er gwybodaeth i'r cyhoedd.